Beth yw sgan Darlifiad Myocardiaidd?

Mae sganiau darlifiad myocardiaidd yn defnyddio maint bach iawn o sylwedd ymbelydrol er mwyn creu delweddau sy'n dangos pa mor dda mae eich calon yn pwmpio ac yn dangos llif y gwaed at gyhyrau'r galon.

Oes rhaid imi ymbaratoi?

Cyn y sgan, NID OES rhaid i chi ymprydio. Argymhellir eich bod chi'n cael brecwast ysgafn cyn dod i'r adran.

Beth sy'n digwydd yn y sgan?

Gofynnwyd i chi ddod am ail ran y prawf Darlifiad Myocardiaidd. Gelwir hwn yn **sgan gorffwys**.

Yn fuan ar ôl i chi gyrraedd yr adran, bydd olinydd ymbelydrol yn cael ei chwistrellu i wythïen yn eich braich, a fydd yn cael ei ddefnyddio gan gyhyrau'r galon yn gymesur â'r cyflenwad gwaed y byddant wedi'i dderbyn. Ni roddir trwyth i chi ac ni fydd rhaid i chi wneud unrhyw ymarfer corff yn ystod rhan hon o'r prawf.

Ar ôl y pigiad, byddwch chi'n mynd i'r bar te gerllaw, lle bydd yn rhaid i chi gael digon o ddiodydd a rhywbeth brasterog i'w fwyta. Gofynnir i chi ddychwelyd ar gyfer eich sgan oddeutu 45 munud ar ôl pigiad yr olinydd.

Wedyn, bydd yn rhaid i chi orwedd ar soffa tra bydd tair gwifren ECG yn cael eu rhoi ar eich brest. Wedyn, caiff y camera ei leoli uwchben eich brest, ac yna gwneir y sgan. Mae'r broses ddelweddu hon yn cymryd oddeutu 20 munud i'w chwblhau.

Beth sy'n digwydd ar ôl y sgan?

Bydd technolegydd yn gwirio i sicrhau y cafwyd sgan boddhaol. Cewch chi adael unwaith y cytunir ar hyn. Gallwch chi yrru adref a pharhau â'ch gweithgareddau arferol.

Bydd canlyniadau'r sgan yn cael eu hesbonio i chi yn eich apwyntiad nesaf yn y Clinig Cleifion Allanol, neu yn y feddygfa os ydy eich Meddyg Teulu wedi eich atgyfeirio chi.

A fydd e'n brifo? Ydy e'n anghyfforddus?

Nac ydy, heblaw am y pigiad. Mae hwn yn debyg i brawf gwaed. Hefyd, nid oes rhaid i chi ddadwisgo'n gyfan gwbl, ond bydd yn rhaid i ni gysylltu electrodau'r ECG â'ch brest.

A oes unrhyw sgil-effeithiau i'r olinydd ymbelydrol?

Mae gweithdrefnau Meddygaeth Niwclear ymhlith y profion delweddu diagnostig mwyaf diogel. Mae'r dos o ymbelydredd a dderbynnir o'r sgan hwn yn gyfwerth â 35 mis o ymbelydredd cefndirol yn y DU (ac yn debyg i'r dos a dderbynnir o sgan CT diagnostig).

CYFARWYDDIADAU PWYSIG

1. Parhewch i gymryd unrhyw feddyginiaethau sydd wedi'u rhagnodi i chi.
2. Bwytewch bryd ysgafn cyn dod i'r adran. Cewch yfed yn arferol cyn dod i'ch apwyntiad.
3. Dewch â rhywbeth brasterog gyda chi i'w fwyta, fel caws neu frechdan facwn.
4. Os ydych chi'n feichiog, neu'n bwydo ar y fron, yn dioddef o anymataliaeth, neu'n derbyn triniaeth dialysis, cysylltwch â'r adran.
5. Yfwch ddigon drwy gydol y dydd, cyn ac ar ôl eich apwyntiad.
6. Ar ôl i chi gael y pigiad, osgowch gyswllt agos â phlant ifanc neu fenywod beichiog am y 24 awr nesaf.
7. Teithio: mae gan rai meysydd awyr, porthladdoedd a gorsafoedd trenau fonitorau ymbelydredd sensitif a allai gael eu hactifadu gennych chi ar ôl y sgan, felly dylech chi gario eich llythyr apwyntiad am 7 diwrnod.
8. Peidiwch â rhoi samplau gwaed neu wrin dros y 24 awr yn dilyn eich pigiad.
9. Ewch i dderbynfa'r Adran Meddygaeth Niwclear pan fyddwch chi'n cyrraedd yr Adran, os gwelwch yn dda.

Ysbyty Singleton

CYNLLUN SAFLE





06/07

Cyfarwyddiadau o draffordd yr M4

O unrhyw gyffordd rhwng 42 a 47, dilynwch arwyddion Canolfan Dinas Abertawe i ddechrau, ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y Gŵyr a'r Mwmbwls. Bydd arwyddion Ysbyty Singleton yn amlwg ger ffiniau'r ddinas. Mae Heol Sgeti ar yr A4216.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

YSBYTY SINGLETON
MEDDYGAETH NIWCLEAR

Apwyntiad ar gyfer eich
Sgan Gorffwys Darlifiad Myocardiaidd (Calon)

Darllenwch y daflen hon yn ofalus ac ewch i'r Adran Meddygaeth Niwclear ar gyfer yr apwyntiad isod

Enw

Rhif Ysbyty

Manylion yr Apwyntiad

Dyddiad

Amser

Os na allwch chi ddod i'r apwyntiad hwn, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, yna ffoniwch (01792) **285295**